Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

6 Mehefin 2025

**Craffu ar Fylchau a Nodwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru a Modiwl 2 o Ymchwiliad Covid-19 y DU**

Annwyl Mark,

Yn dilyn ymddiswyddiad Aelodau Ceidwadol o Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru (y Pwyllgor Covid), mae'r Pwyllgor Busnes wedi bod yn edrych ar ddulliau amgen ynghylch sut y gall pwyllgorau'r Senedd graffu ar Covid-19 ac ar waith Ymchwiliad Covid-19 y DU yn y dyfodol.

Yn ei gyfarfod ar 3 Mehefin, trafododd y Pwyllgor Busnes wahodd pwyllgorau perthnasol i edrych ar yr adroddiadau a gyhoeddir gan Ymchwiliad Covid-19 y DU ar ddiwedd pob modiwl, ac i graffu ar faterion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd y Pwyllgor Covid ei adroddiad cyntaf, yn cynnwys ei ganfyddiadau ar Fodiwl 1 o'r Ymchwiliad. Nododd yr adroddiad naw maes ar gyfer craffu pellach, gan gynnwys gwydnwch a pharodrwydd Cymru, atebolrwydd y Llywodraeth, rhannu data, a negeseuon cyhoeddus. Ar ôl ystyried cylchoedd gwaith presennol pwyllgorau'r Senedd, a nodi eich cylch gorchwyl i graffu ar weinyddiaeth gyhoeddus a materion sy'n ymwneud â pheirianwaith y Llywodraeth, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig mai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) sydd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith craffu parhaus ar Fodiwl 1.

Mae adroddiad Modiwl 2, yr ydym yn disgwyl iddo gael ei gyhoeddi cyn hir, yn ymdrin â llywodraethiant gwleidyddol a gweinyddol a gwneud penderfyniadau craidd ar gyfer y DU, gan gynnwys adran benodol (2b) ar Gymru. Roedd yr adran hon yn cynnwys gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghymru ac mae'n debygol o gynnwys deunydd sy'n arbennig o berthnasol i'r Senedd. O ystyried ei ffocws ar brosesau

gwneud penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol, fe ymddengys fod Modiwl 2 hefyd yn dod o fewn cylch gorchwyl PAPAC, ac efallai y bydd yn addas iawn i PAPAC arwain craffu ar y materion hyn hefyd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddem yn ysgrifennu at PAPAC i ofyn i chi ystyried y canlynol:

- A oes gan y Pwyllgor y capasiti i arwain y gwaith craffu ar y bylchau a nodwyd gan y Pwyllgor Covid mewn perthynas â Modiwl 1 o Ymchwiliad Covid-19 y DU a, lle bo'n briodol, i gydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd y mae eu cylchoedd gorchwyl yn cyd-fynd â'r meysydd perthnasol; ac
- A ydych chi'n rhagweld y byddai gennych chi'r capasiti i arwain y gwaith o graffu ar adroddiad Modiwl 2 o Ymchwiliad Covid-19 y DU, gan gynnwys isadran 2B fel y mae'n ymwneud â Chymru. Gan gydnabod y bydd gan eich Pwyllgor raglen waith eisoes ar gyfer gweddill y Senedd hon, rydym yn cynnig y byddech efallai am ganolbwyntio'r gwaith craffu yn bennaf ar ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw, yn hytrach na dilyn y dull o geisio nodi bylchau yn Ymchwiliad y DU fel y rhagnodwyd yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Covid.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn cydnabod y llwyth gwaith sylweddol sydd eisoes ar y gweill gan PAPAC ac yn gwerthfawrogi'r gofynion y gallai'r cais hwn eu gosod ar y Pwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd sylweddol materion sy'n ymwneud â chraffu ar Covid-19 ac Ymchwiliad Covid y DU, a'r diddordeb cyhoeddus sylweddol ynddynt, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried cynnwys y materion hyn yn eich rhaglen waith.

Er gwybodaeth i chi, byddaf hefyd yn ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i ofyn i'r Pwyllgor hwnnw ystyried craffu ar waith y Prif Weinidog ynghylch canfyddiadau Modiwl 1, o ystyried ei chyfrifoldeb dros baratoadau sifil. Rwyf hefyd yn bwriadu trafod dull arfaethedig y Pwyllgor Busnes â Fforwm y Cadeiryddion yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2025.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich barn am y mater hwn er mwyn i'r Pwyllgor Busnes allu ei hystyried.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.